**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mehefin 2008**

**Cynllun Gweithredu Lleihau Risg 2009/10**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2009/10 i aelodau.

## Cyflwyniad

**2.** Ar 21ain Mawrth 2006, fe lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ganllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub ar Gynlluniau Lleihau Risg o'r enw "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Roedd y ddogfen yn cymryd lle'r canllaw a'r polisi blaenorol sef Cynllun Integredig ar gyfer Rheoli Risg.

**3.** Mae canllaw'r Cynllun Lleihau Risg yn darparu'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i Awdurdodau, er mwyn iddynt gyfeirio at risg mewn modd wedi'i strwythuro, gan gynnwys y pwyslais cynyddol ar atal.

**4.** Mae'n bwysig i Aelodau nodi:

- Prif nod y Cynllun Lleihau Risg yw lleihau risg
- Rhaid i Awdurdodau gael Cynllun Lleihau Risg neu Gynllun Gweithredu yn y parth cyhoeddus, ac yr ymgynghorir arno erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn
- Rhaid i Awdurdodau ymgynghori'n eang ar y Cynllun Lleihau Risg neu adael isafswm o 12 wythnos am ymgynghoriad

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**5.** Diben y papur eglurhaol hwn yw cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2009-10 sy'n ganlyniad i waith y Gweithgor Cynllunio Lleihau Risg. Derbynnir yr argymhellion gan y Panel Gweithredol ar 5ed Mawrth 2008.

**Canlyniad**

**6.** Er mwyn cwrdd â'r gofynion a ddangosir yn adran 4, y dyddiad olaf posib gellir cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu am ymgynghoriad cyhoeddus yw'r 10fed Gorffennaf 2008. Y rheswm dros hyn yw sicrhau gellir adrodd yr holl ymatebion i'r Awdurdod a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu erbyn 31ain Hydref 2008.

**7.** Bydd Aelodau yn dymuno nodi, yn wahanol i'r canllaw, nid yw Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft wedi cael ei gyflwyno i Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio am drafodaeth anffurfiol. Gwneir hyn cyn gynted a bo amgylchiadau'n caniatáu.

**Argymhelliad**

**8.** **8.1** Fod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu drafft am ymgynghoriad cyhoeddus.

**8.2** Yn y cyfamser, symud ymlaen i gychwyn trafodaeth anffurfiol ar yr argymhellion drwy swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.